# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 14eg o Chwefror, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i LJ am baratoi ystafell yn Nhabor i bwrpas cynnal y cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL HENO ROEDD:</u>**<br>Sara Williams **(SW);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Lisbeth James **(LJ)**; Lois Fychan **(LF);** Ynyr Ellis **(YE);** Olwen Roberts **(OR).**Emlyn Williams **(EW**); Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:</u>**<br>Griffith John Leslie Jones **(GJLJ)** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD IONAWR 2023** |
| | **a)** **<u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br><br>Cronfa costau byw yn eu dyrannu i Bistyll 35 rhwng Trefor a Llithfaen GJ<br>Tydi'r ddwy gymuned ddim yn derbyn taleb i Siop y Groes yn hytrach i siopau lleol<br>Dim alcohol diodydd ysgafn a fferis yn lle sothach<br>Apeliodd JG i bawb fod yn ymwybodol o'r cynllyn a'i rhannu gyda phobol anghenus<br>Dim cyfarfod mewn wythnos<br><br>11. Trefnydd yn hytrach nac darlunydd<br>Cynigwyd gweddill y cofnodion yn gywir gan GJ gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b)** **<u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>Cwynion ac adroddwyd I Gyngor Gwynedd:<br><br>**<u>TYLLAU YN Y BRIFFORDD</u>**<br>• Ger Tŷ Alpha Llithfaen<br>• Ger Tŷ mawr, Lôn Groes, Pistyll<br>• Ger Mynydd Heulog<br><br>**<u>DDIFFYGION GYDA THRAENIAU</u>**<br>Traeniau o Dynn Parc i Gors Lwyd Llithfaen angen eu hagor, llawn cerrig.<br><br>**<u>TIPIO ANGHYFREITHLON</u>**<br>Bath wedi cael ei daflu i ffoes ar Lon Isaf sy'n mynd o Lithfaen i Bentre-uchaf<br><br>**<u>POLYN PERYGLUS BT</u>**<br>Roedd GJLJ Wedi adrodd blaen llaw'r cyfarfod nad oedd unrhyw waith wedi ei gynnal ar y polyn hyd yn hyn. Esboniodd y clerc bod y gwyn wedi derbyn sylw sydyn yn wreiddiol gan swyddog oedd wedi bod yn |

| | |
|---|---|
| | gwneud asesiad i gynnal y gwaith. Roedd wedi rhoi gwybod bydd ychydig amser cyn i'r gwaith gael ei gynnal.<br><br>**TAMAID ANWASTAD WRTH Y FYNWENT**<br>Adroddodd GJLJ ei fod wedi bod allan y gwneud asesiad, roedd o'r farn nad oedd dim fuasai'r Cyngor Cymuned yn medru gwneud bellach.<br><br>**PARCIO PERYGLUS**<br>Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn i ohebiaeth y Cyngor Cymuned yn gofyn i Mr Jones barchu iechyd a diogelwch y trigolion a pharcio mewn safle mwy diogel.<br>Adroddodd yr aelodau bod un o olwynion y fan erbyn hyn yn fflat, a pheryg bydd problemau gyda'i symud. Penderfynwyd cadw golwg am y mis a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**CWYN I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG**<br>Adroddodd JG ei bod wedi codi'r gwyn am ddiffyg hyfforddiant Cymraeg gan Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru. Roedd wedi derbyn cydnabyddiaeth ac ymateb yn cadarnhau ei fod yn gŵyn dilys, ond dim byd pellach.<br><br>**Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)**<br>Roedd amcan bris wedi ei dderbyn. Cytunodd yr aelodau gnoi cil ai drafod y cyfarfod nesaf |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | SP ac LJ parthed ceisiadau am nawdd |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS/APP REF: C23/0043/43/LL - GWYNUS UCHA, PISTYLL, PWLLHELI, LL53 6LY**<br>Cais ar gyfer codi adeilad amaethyddol - **DILYN A DARGANFOD**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. |
| **7.** | **CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG** |
| | Adroddodd GJ ei fod wedi clywed am berson arall o fewn y ward yn cael eu heffeithio gan Dai Teg ac yn meddwl eu bod hi yn amser ni geisio newid pethau.<br><br>Ar hyn o bryd mae rheolau Tai Teg yn lladd cymunedau gwledig drwy fod yn rhy gaeth nes atal pobl leol fedru adeiladu yn eu bro ac adeiladu ar dir sy'n berchnogaeth eu teulu. Cynigiaf felly i'r Cyngor hwn alw ar Dai Teg a Chyngor Gwynedd i:<br><br>(i) Ystwytho rheolau caeth Tai Teg i fod er lles pobl leol a llesiant cymunedau gwledig.<br><br>(ii) Newid eu rheolau fel eu bod yn ymdebygu i reolau'r cynllun arloesol 'Hunan adeiladu Cymru' ac yn ystyried ceisiadau adeiladu tai fforddiadwy gan ymgeiswyr sydd ag eiddo yn eu perchnogaeth yn barod.<br><br>Os oes cefnogaeth bosib ni wedyn cael Cynghorwyr a Chynghorau Cymuned eraill arwyddo a chefnogi'r cynnig a'u yrru ymlaen i'r cabinet.<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunodd yr aelodau gefnogi'r cais - Cytunodd JG lunio llythyr - y clerc i'w yrru blaen i Gynghorau Cymuned gyfagos i ofyn am gefnogaeth. |

| | |
|---|---|
| **8.** | **CEISIADAU AM NAWDD** |
| | **<u>CYTUNWYD I GEFNOGI'R SEFYDLIADAU CANLYNOL:</u>**<br><br>• Cae Chwarae Llithfaen – Cytunwyd mewn egwyddor, disgwyl am swm terfynol fis nesaf<br>• Ambiwlans Cymru - £500<br>• Clwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl - £200<br>• Pwyllgor Apêl Cronfa Leol Plwyf Pistyll 2023 - £500<br>• Hafod Ceiri- £1000<br>• Pwyllgor Uwch Adran ac Aelwyd Gwrtheyrn - £200<br>• Llythyr Llithfaen – £320 |
| **9. 3** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bydd y Cynllun Busnes wedi ei ddarfod erbyn mis Mawrth – Nid oedd diweddariad parthed y grant . Bydd y gwaith yn cychwyn yn amodol ar y grant fis Mehefin. |
| **10.** | **MAES PARCIO, AR BEN Y NANT** |
| | Dim diweddariadau pellach |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | **<u>SP – SAFLE BWS</u>**<br>Roedd SP wedi derbyn cwynion pellach bod trigolion yn oer yn y gysgodfa a cheisiadau pellach i'w ail leoli. Ail adroddodd y clerc bod y Cyngor Sir wedi gwneud asesiad ac wedi methu a ffeindio safle saff i'w ail leoli. I berwyl hyn nid yw'r mater i dderbyn sylw pellach ganddynt. Roedd y clerc hefyd wedi llythyru a Bysus Nefyn yn gofyn iddynt fod yn wyliadwrus bod gwelediad i drigolion yn anodd. Cytunodd yr aelodau adrodd hyn yn Llythyr Llithfaen.<br><br>**<u>GJ – TWYLL TRETH CYNGOR</u>**<br>Roedd cwyn wedi dod i sylw GJ bod un o berchnogion Pennant, Pistyll wedi cofrestru ei fod o'n byw yn yr aelwyd drwy gydol y flwyddyn i osgoi talu Treth Cyngor dyledus o 150% ar ail gartrefi.<br>Adroddodd yr aelodau bod twyll gan mewnfudwyr a thai haf yn fater ehangach nid yn unig yn y gymuned ond mewn Wardiau cyfagos hefyd. Y clerc i adrodd y gwyn i Adran Gofrestru a Threth Cyngor Gwynedd gan gopi JG<br><br>**<u>SP – PLACIAU QR</u>**<br>Gofynnodd SP am ganiatâd y Cyngor i godi placiau QR yn y gymuned ar gyfer Taith Gerdded Tre Ceiri. Cytunodd yr aelodau. |
| **12.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) <u>JG – CWYNION AM CEIRI, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6PA</u>**<br>Rhannodd JG ymateb gan Gyngor Gwynedd parthed cwynion am yr eiddo uchod yn adrodd bod yr unigolyn wedi bod allan o'r eiddo am gyfnod a bod yr Uned Rheoli Cwn ar ddallt eu bod wedi ei ail gartrefu yn y cyfamser.<br>Mae gohebiaeth wedi mynd i'r tenant/sawl sy'n byw yno ynglŷn â chyflwr tu fewn i'r eiddo ac mae'r achos dal yn agored ar hyn o bryd. Os oes gan unrhyw gymydog cwyn o ran arogl neu bla byddwn yn gofyn iddynt gysylltu â'r Adran. |

b) **YMGYNGHORIAD - CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w weithredu

c) **CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŶN AONB -4.00PM, DYDD MERCHER, 29 MAWRTH 2022 AR ZOOM.**
Gwirfoddolodd SP fynychu'r cyfarfod

d) **HYRWYDDO CYNLLUN PRYNU GWYNEDD**
Rhannodd y clerc bosteri i arddangos yn y siop

e) **PWYLLGOR APÊL CRONFA LEOL PLWYF PISTYLL 2023 / CYNGERDD DYDD GŴYL DEWI 1AF O FAWRTH YN NANT GWYRTHEURN AM 7 Y.H**
Adroddodd SP obeithion bydd y noson yn codi £1,000 i gronfa'r Eisteddfod

f) **CAIS GAN GYNGOR CYMUNED LLANBEDROG PARTHED LLIFOGYDD AR YR A499 RHWNG LLANBEDROG A PWLLHELI**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w weithredu

g) **BANERI 'ARBEDWCH WASANAETH AMBIWLANS AWYR' £30 + TAW (70CM X 150CM).**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w weithredu

h) **DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS (EMRTS CYMRU)**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w weithredu

i) **NEWYDDLEN IONAWR GWYBODAETH I DEULUOEDD GWYNEDD**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w weithredu

## 13. CYLLID

a) **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23**
Cymeradwywyd y cysoniad a'r rhagamcanion gyda'r aelodau yn cytuno ei gywirdeb.

b) **CYFRIFLEN BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL – 1 o Ionawr i 31 o Ionawr 2023** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | **14,241.63** |
| Taliadau i mewn | 678.55 |
| Taliadau allan | 333.24 |
| Balans terfynol | **14,586.94** |

| **CYFRIF CADW –6ed o Ragfyr 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | **2,664.802** |
| Taliadau i mewn | 0.00 |
| Taliadau allan | 0.00 |
| Balans terfynol | **2,664.802** |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

**c) <u>TALIADAU I'W CYMERADWYO</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **201264** | G. Thomas | Cyflog a threuliau | **267.00** |
| **201264** | Llythyr Llithfaen | Nawdd | **320.00** |
| **201264** | Ambiwlans Awyr Cymru | Nawdd | **500.00** |
| **201264** | Pwyllgor Apêl Pistyll | Nawdd | **500.00** |
| **201264** | Hafod Ceiri | Nawdd | **1,000.00** |
| **201264** | Aelwyd Gwrtheyrn | Nawdd | **200.00** |

**14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**

14eg o Fawrth, 2023 – Tabor Llithfaen – 7 y.h